Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

11 / 12 / 18

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Dwi'n ysgrifennu atoch gyda'r trefniadau, ac ychydig o fanylion ychwanegol ar gyfer y daith sgïo i Awstria sy' ddim ond ryw 2 fis i ffwrdd bellach!

**Dydd Iau 21ain Chwefror:**
- **Cwrdd 19.00** yn yr ysgol**.**
- **Gadael 19.30 .**
- Gadael Dover: 04.15
- Teithio yn ystod y nos er mwyn cyrraedd Radstadt.

**Gwener 22ain Chwefror:**
- Cyrraedd Radstadt tua 20:00 (dibynnu ar draffig a thywydd).
- Bwcio mewn i'r gwesty a chasglu sgïs / eirfwrdd.
- Cyfle i ymlacio cyn pryd bwyd.

**Sadwrn 23ain Chwefror – Mercher 27ain Chwefror:**
- Sgïo drwy'r dydd; gweithgareddau yn ystod y nos.

**Iau 28ain Chwefror:**
- Sgïo yn ystod y dydd.
- Pryd nos am 17:00.
- Gadael y gwesty am 19:00.
- Teithio drwy'r nos i Dunkirk.

**Gwener 1af Mawrth:**
- Gadael Dunkirk 08:00.
- Cyrraedd Dover tua 08.30.
- **Cyrraedd Ysgol Bryn Tawe tua 15:00.**
- Bydd cyfle i'r disgyblion ffonio rhwng y cwch a'r ysgol i roi amser dychwelyd mwy pendant gan mai 'tua' yn unig yw'r amseroedd uchod. Gwerthfawrogwn petai pawb yn casglu'u plant yn brydlon.

**Cyfeiriad y gwesty:**
Hotel Stadt Cafe Sendlehofer
Schernbergstraße 3,
5550 Radstadt, Austria

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
YSGOL RYGBI SCHOOL OF RUGBY
YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU UNICEF
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Dyma rai syniadau er mwyn hwyluso'r **daith** ar y bws.

- Clustog a chot.
- Llyfr, cwis, cylchgrawn.......
- Ffilmiau addas ar gyfer eich oedran!
- Bwyd am y daith.
- Unrhyw beth i'ch diddanu!

Isod mae rhestr o'r **dillad angenrheidiol** ar gyfer taith sgïo:

- Siaced addas i sgïo.
- Sallapettes -trowsus sgïo.
- Het.
- Menig.
- Sanau (o leiaf 3 pâr!).
- Sbectol haul / gwydrau sgïo
- Eli haul cryf.
- Dillad addas i fynd o dan y siaced – 2-4 haen.
- Gwisg nofio a tywel.
- Dillad arall ar gyfer y nosweithiau – cofiwch un bag mawr neu gês yn unig!!

**GWYBODAETH YCHWANEGOL**

- ✓ Bydd angen i bob disgybl sicrhau bod ei **d/thrwydded teithio** yn cael ei chyflwyno i Mr Rhodri Thomas cyn ddydd Gwener 8fed o Chwefror.
- ✓ Gofynnaf i chi sicrhau bod **Cerdyn Iechyd Ewropeaidd** gyda'ch plentyn a'ch bod yn ei chyflwyno i Mr Thomas yn yr ysgol erbyn dydd Gwener 8fed o Chwefror.
- ✓ Fe fydd tua £100 o arian poced yn fwy na digon ar gyfer y daith. Mae'n syniad i bob disgybl ddod ậ dwy waled – un i gadw arian yn y banc ac un i ddefnyddio pob dydd. (Un arfer dda gan rieni yn y gorffennol yw i roi tua £10 - £15 mewn arian Euro i mewn i 7 amlen gwahanol – un i bob diwrnod?)
- ✓ Cofiwch fod angen i chi gysylltu i drafod unrhyw ofynion meddygol fydd gan eich plentyn.

RHIF FFÔN SYMUDOL YR YSGOL / SCHOOL MOBILE NUMBER: **07796 275289**

Os oes unrhyw gwestiwn gennych ynglŷn â'r uchod, cysylltwch â ni yn yr ysgol.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar yr 21ain o Chwefror!

Yn gywir,

Rhodri Thomas
Pennaeth yr Adran Addysg Gorfforol

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600 Ffacs 01792 560601
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies